# Cynnal a chadw offer llaw ag ymyl a hogi ymylon torri

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â hogi a chynnal a chadw offer llaw ag ymyl, yn cynnwys eu hatgyweirio a'u storio. Mae hyn yn cynnwys:

- adnabod ac ymdrin â diffygion mewn offer
- adnewyddu dolenni a choesau offer
- diogelu offer i atal cyrydu, niwed ac anaf personol
- hogi offer ag ymyl
- storio offer yn gywir

Wrth weithio gyda pheiriannau bydd angen eich bod wedi cael hyfforddiant priodol ac yn meddu ar ardystiad cyfredol lle bo angen, yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

Mae'n rhaid i'ch gwaith gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer perthnasol wrth wneud y gwaith hwn.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. asesu'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r safle a'r gwaith arfaethedig
2. dewis a gweithredu dull gwaith priodol, yn unol â'r peryglon a aseswyd
3. dewis a defnyddio'r offer amddiffynnol personol (PPE) priodol ar gyfer y gwaith
4. dewis, paratoi a defnyddio'r offer a'r cyfarpar priodol sy'n ofynnol ar gyfer hogi a chynnal a chadw offer ag ymyl, yn ddiogel ac yn effeithiol
5. cadarnhau bod yr holl offer wedi cael ei wirio a'i fod yn addas at y diben
6. cynnal offer llaw ag ymyl trwy adnabod a gwneud mân ddiffygion yn ddiogel ar ddolen neu goes offer llaw
7. adnabod unrhyw ddiffygion mawr mewn offer llaw ag ymyl
8. atgyweirio a sicrhau bod yr offeryn llaw ag ymyl mewn cyflwr gweithio diogel
9. adnabod ymylon diffygiol a heb fin a defnyddio'r offer priodol i hogi ac adfer yr ymyl torri cywir ar offer
10. storio offer yn gywir i gynnal eu cyflwr a sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio
11. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill yr holl amser, yn unol â deddfwriaeth berthnasol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i adnabod peryglon ac asesu risg
2. sut i ddehongli asesiadau risg
3. sut i ddewis a defnyddio offer amddiffynnol personol (PPE) priodol ar gyfer y gwaith
4. goblygiadau iechyd a diogelwch diffygion mewn offer llaw ag ymyl, offer ag ymyl a choesau
5. y dulliau a'r dyfeisiadau gwahanol ar gyfer hogi offer llaw ag ymyl
6. y gofynion cyfreithiol ar gyfer gwirio offer
7. proffiliau gwahanol offer ag ymyl ac sydd yn briodol ar gyfer dibenion gwahanol
8. sut i adnabod nodweddion ongl ac ymyl offer ag ymyl unigol sy'n ofynnol i gyflawni eu swyddogaeth benodol
9. pwysigrwydd "hydwythedd" mewn offeryn ag ymyl
10. y defnydd priodol o ystod o gerrig hogi a'r gwahaniaeth rhwng cerrig olew a gwlyb
11. y defnydd priodol o falwyr ongl ac olwynion malu
12. sut i brofi min offer yn ddiogel a phan fydd angen hogi offer
13. y gwaith cynnal a chadw ac amddiffyn sy'n ofynnol ar gyfer offer ag ymyl miniog
14. y dulliau gwahanol o osod dolen neu goes newydd
15. sut i ddewis y deunydd priodol ar gyfer dolenni offer
16. sut i storio offer yn ofalus i gynnal eu cyflwr
17. sut i labeli, storio a hysbysu ynghylch offer peryglus ac wedi eu niweidio
18. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

Atgyweirio offer llaw ag ymyl: amnewid y ddolen, ail-hogi'r ongl, llifanu'r ymyl torri

Diffygion mawr: angen amnewid y ddolen neu'r goes

Cynnal a chadw offer llaw ag ymyl a hogi ymylon torri

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANTw54 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ceidwad Parc, Coedlannu, Garddwriaeth a choedwigaeth, Rhodiwr, Gweithiwr Ystâd |
| **Cyfres/Set** | Garddwriaeth, Gwaith coed, Cadwraeth Amgylcheddol |
| **Geiriau Allweddol** | offer; dolen; ongl; miniogi; ymyl |